# POWELL, EDWARD (1478? - 1540), diwinydd Pabaidd

**Enw:** Edward Powell
**Dyddiad geni:** 1478?
**Dyddiad marw:** 1540
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** diwinydd Pabaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Emyr Gwynne Jones

Ganwyd yng Nghymru tua 1478 ac addysgwyd ef yn Rhydychen lle y graddiodd yn M.A.; daeth yn gymrawd o Goleg Oriel yn 1495. Penodwyd ef yn rheithor Bleadon, Somerset, 1501, ac wedi hynny bu'n dal bywiolaethau eraill yn Salisbury, Carlton-cum-Thurlby, Lyme Regis, Bedminster, Bryste, a Sutton le Marsh. Pregethodd droeon yn y Llys wedi i Harri VIII ddod i'r orsedd. Pan ymledodd athrawiaethau Luther i Loegr, gwrthwynebwyd hwy'n ffyrnig gan Powell mewn traethawd, *Propugnaculum summi Sacerdotii Evangelid*, a gyhoeddodd yn 1523. Datganodd yn bendant a chroyw yn erbyn ysgariad Harri oddi wrth Catherine o Aragon, a'i briodas ag Anne Boleyn; am hynny, a hefyd oherwydd ei bregethu mynych yn erbyn y Diwygiad Protestannaidd, collodd ffafr y Llys, a phan wrthododd yn 1534 gydnabod yr olyniaeth i'r orsedd, caed ef yn euog o uchel frad. Bu'n garcharor yn y T r hyd Orffennaf 1540, pryd y cymerwyd ef a phump arall i Smithfield a'u dienyddio yno.

## Awdur

**Emyr Gwynne Jones**, (1911 - 1972)

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography*, a'r awdurdodau a enwir yno

T. P. Ellis, *The Catholic Martyrs of Wales, 1535-1680*, 10-14


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 24949972

Wikidata: Q5344893


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu